Tachwedd 2019

Annwyl riant neu warcheidwad

Mae'r sesiwn brechu oedd wedi'i drefnu ar gyfer ysgol eich plentyn wedi cael ei ohirio.

Y rheswm am hyn yw problemau annisgwyl gyda'r cyflenwad o frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn ledled y DU.

Hyd nes bod y cyflenwad o'r brechiad yn dychwelyd i'r lefelau arfaethedig unwaith eto, mae'r stoc bresennol yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer plant sydd â chyflwr iechyd tymor hir, a phlant iau (dwy neu dair oed ar 31ain Awst), oherwydd mae'r plant hyn yn debygol o fod yn salach os byddant yn dal y ffliw.

Mae'r ffliw yn gallu achosi cymhlethdodau difrifol weithiau, yn enwedig i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd, felly os oes gan eich plentyn gyflwr iechyd tymor hir, er enghraifft, asthma sydd angen corticosteroid sy'n cael ei fewnanadlu, cyflwr ar y galon, neu ddiabetes, mae'n bwysig ei fod yn cael brechiad y ffliw felly cysylltwch â'ch meddygfa.

Rydym yn rhagweld gwybod mwy am y cyflenwad o'r brechiad yn nes ymlaen y mis yma.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am aildrefnu sesiynau brechiad y ffliw yr ysgol, cysylltwch â gwasanaeth y nyrsys ysgol ar 01639 684457

Am wybodaeth am y ffliw a brechiad y ffliw ewch i www.curwchffliw.org.

Yn gywir

Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

CURWCH FFLIW
BEAT FLU

November 2019

Dear parent or guardian

The planned vaccination session in your child's school has been postponed.

This is due to unexpected issues with the nasal spray flu vaccine supply across the UK.

Until the vaccine supply returns to planned levels again, the current stock is being prioritised for children with a long term health condition, and younger children (those aged two or three years of age on 31st August) as these children are more likely to be very unwell if they catch flu.

Flu can sometimes cause serious complications, especially in those with health conditions, so if your child has a long-term health condition, for example asthma that requires inhaled corticosteroids, a heart condition, or diabetes, it is important they get their flu vaccine so please contact your GP surgery.

We anticipate knowing more about the supply of this vaccine later this month.

If you have any questions about the re-scheduling of the school flu vaccination sessions please contact the school nursing service on 01639 684457

For information about flu and flu vaccination visit www.beatflu.org.

Yours faithfully

School Nursing Service